# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Mehefin 2017

Amser: 14.00 - 15.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4110

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Joyce Watson AC (yn lle Lee Waters AC) |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Claire Flood-Page<br>Mark Jeffs<br>Matthew Mortlock<br>Dave Rees |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lee Waters AC. Roedd Joyce Watson AC yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cyfrifon Llywodraeth Ganolog 2015-16

### 2.2 Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 - Gwybodaeth ychwanegol gan Cymdeithas Cynnyrch Coedwigoedd y Deyrnas Unedig (24 Mai 2017)

### 2.3 Cyfoeth Naturiol Cymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Cyfoeth Naturiol Cymru (26 Mai 2017)

## 3 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru a chytunodd i ofyn am adroddiad cynnydd yn ystod tymor yr hydref 2017.
3.2 Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylid ceisio cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr amser o ran bwriad Llywodraeth Cymru i weithio gyda byrddau iechyd i ymchwilio i hyfforddiant gorfodol ar gyfer maeth.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyfoeth Naturiol Cymru: trafod yr adroddiad drafft

5.1 Trafodwyd yr adroddiad drafft. Gofynnodd Aelodau i rywfaint o newidiadau drafftio gael eu gwneud, a fydd yn cael eu trafod y tu allan i'r Pwyllgor.

## 6 Blaenraglen waith: Rhaglen Waith Gwerth am Arian Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Cyflwynodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei bapur ar waith sy'n mynd rhagddo ar raglen waith gwerth am arian, a gafodd ei nodi gan yr Aelodau.

## 7 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Y Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif

7.1 Cafodd Aelodau eu briffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ei adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar a chytunodd i gynnal ymchwiliad yn hwyrach yn nhymor yr hydref 2017 unwaith y bydd gan Lywodraeth Cymru gynlluniau mwy datblygedig ar gael ar gyfer Band B y rhaglen.

## 8 Plant sy’n derbyn gofal: Trafod yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar gylch gorchwyl yr ymchwiliad

8.1 Nododd yr Aelodau y papur a chroesawodd gynnig Archwilydd Cyffredinol Cymru i lunio Memorandwm ar ddarlun eang y mater. Roedd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol o'r angen i gysylltu â'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y gwaith hwn.